EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

a gynhelir yn

Y NEUADD

Prynhawn a Nos Sadwrn, 11eg Ebrill 2026

Cyfarfod Prynhawn Sadwrn
Tâl Mynediad: £3.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 12.30 o'r gloch**.**

Cyfarfod Nos Sadwrn
Tâl Mynediad: £4.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 6.30 o'r gloch.

DECHREUIR Y DDAU GYFARFOD YN BRYDLON.

EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

Llywydd y Dydd:
Hedydd Lea Dyer,
Alderholt, Dorset.

Arweinyddion:
Netta Pritchard
Gwilym Jones

Beirniaid:
Cerdd a Cherdd Dant: Mr Geraint Roberts, Prestatyn
Llefaru a Rhyddiaith: Elin Williams, Cwm-ann
Barddoniaeth: Y Prifardd Rhys Iorwerth, Caernarfon
Arlunio a Gwaith Llaw: Elin Huws, Llanbedrog

Cyfeilydd:
Catrin Alwen, Chwilog

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Mr Gwilym Jones, Tŷ Newydd, Llaniestyn
Is-Gadeirydd: Glenys Williams, 4 Cae Arfryn
Trysorydd: Mrs Siân Thomas, Gwynfa
Is-Drysorydd: Glenys Williams, 4 Cae Arfryn
Ysgrifennydd: Mr Dilwyn Thomas, Meifod, Mynytho,
Pwllheli, Gwynedd LL53 7RH
Ffôn: (01758) 740704 Symudol: 07979 733123
e-bost: dilwyn465@btinternet.com

RHESTR TESTUNAU

LLENYDDIAETH

1. Blwyddyn Derbyn ac 1: Llun a Brawddeg. Gwobr: Medal a £7 i'w rhannu.
2. Blwyddyn 2: Llun a Paragraff: Parti Pen-blwydd. Gwobr: Medal ac £8 i'w rhannu.
3. Blwyddyn 3 a 4: Stori, 'Y Wers Nofio'. Gwobr: Medal a £9 i'w rhannu.
4. Blwyddyn 5 a 6: Stori neu Barddoniaeth, 'Y Gêm Bêl-droed'. Gwobr: Medal a £12 i'w rhannu.
5. Dan 16 oed: Darn o farddoniaeth: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
6. Dan 16 oed: Darn o ryddiaith: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
7. Dan 19 oed: Ymateb i'r geiriau 'Caeth a Rhydd'. Gwobr: Tlws (rhoddedig gan Mrs Ann Jones er cof am ei phriod, Thomas W. Jones) a £12.
8. Dan 25 oed: Pwnc llosg. (Gwahoddir darnau creadigol; newyddiadurol; mynegi barn). Gwobr: Tlws y Prifardd (rhoddedig gan deulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones).
9. Cyfansoddi Darn Llefaru i blant dan 6 oed. Gwobr: £20 (rhoddedig er cof am y ddiweddar Heulwen M. Thomas, Meifod). (Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi'r cynnyrch buddugol.)
10. Emyn i ddathlu canlyniad arholiad. Gwobr: £10.
11. Cywydd, heb fod dros ugain llinell, 'Y Llais'. Gwobr: £10.
12. Soned, 'Mynydd'. Gwobr: £10.
13. Telyneg, 'Y Gwynt'. Gwobr: £10.
14. Englyn, 'Mynytho'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Mr Sam Jones).
15. Englyn Ysgafn, 'Y Ddraig'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Mr Sam Jones).
16. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell, 'Ysbrydion'. Gwobr: Cadair yr Eisteddfod (model) a £30.
17. Rhyddiaith: Ysgrif – 'Heddwch'. Gwobr: Tlws (rhoddedig) i'w gadw am flwyddyn a £15.

Cynhelir Seremoni Tlws y Prifardd a Seremoni'r Cadeirio yng nghyfarfod yr hwyr. Cenir Cân y Cadeirio gan Mrs Carol Pugh, Botwnnog a chenir y Corn Gwlad gan Rhys Evans, Y Ffôr.

Beirniadaethau 1-6 prynhawn Sadwrn.
Beirniadaethau 7-17 nos Sadwrn.

---

18. I bob oed: Cyfansoddi cân ar eiriau'r Darn Llefaru buddugol yn Eisteddfod 2025. Gwobr: £12. (Beirniadaeth nos Sadwrn.)

Methu Aros

Rhaid i ti gael amynedd,
Medd Mam, mae hynny'n wir;
Ond pam fod angen aros
Am amser hir, hir, hir?

Mae'n symud ers wythnosau,
Ond nid yw byth yn rhydd
Er i mi dreulio oriau
Yn siglo hwn bob dydd.

Hwre!! Fe ddaeth o'r diwedd
Ar frys o dop fy ngheg;
Mae'n saff o dan 'ngobennydd
Dewch heno dylwyth teg!
Drwy'r amser, coeliwch fi!

Owenna Hughes, Pencaenewydd

ARLUNIO
(unrhyw gyfrwng)

1. Meithrin a Derbyn: Lliw. Gwobr: £7.
2. Blwyddyn 1 a 2: Siapiau. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Gwanwyn. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Cynefin. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Breuddwydion. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Atgof. Gwobr: Cwpan (rhoddedig er cof am Gwynfor Ellis) a £12.

GWAITH LLAW
(unrhyw gyfrwng)

1. Meithrin a Derbyn: Blodau. Gwobr: £7
2. Blwyddyn 1 a 2: Y Môr. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Golygfa. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Adra. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Amgylchfyd. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Trugareddau. Gwobr: £12.

CYFARFOD PRYNHAWN SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r cystadlaethau Canu a Llefaru dan 6 oed.

CERDDORIAETH

1. Unawd dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1. Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
2. Unawd dan 6 oed (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): Unrhyw. Gwobr: 1. Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
3. Unawd Bl. 2 ac iau: 'Y Caribî', E. Olwen Jones, allan o 'O Ris i Ris' (Y Lolfa). Gwobr: 1. Medal a £5.50; 2, £4.50; 3, £4.
4. Unawd Bl. 3 a 4: 'A-io! A-io!', Catrin Angharad Jones (Curiad). Cywair: F fwyaf (D#D') (Curiad 9076/H). Cywair: E♭ fwyaf (C#C') (Curiad 9076/L). Gwobr: 1. Medal a £6; 2, £5; 3, £4.
5. Unawd Bl. 5 a 6: 'Cân yr Adar', Rhys Jones (Tŷ Cerdd). Cywair: G fwyaf (D#F♯'). Cywair: E fwyaf (B#D♯'). Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
6. Unawd Piano Bl. 6 ac iau: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 3 munud. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
7. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau; 'Morio', allan o 'Caneuon Gwerin i Blant' (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru). I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
8. Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
9. Deuawd Bl. 6 ac iau: 'Emyn o Ddiolch', Ann Peters Jones, allan o 'Caneuon y Talwrn ac Eraill' (Curiad, 2097). Gwobr: £18 i'w rhannu.
10. Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: 'Heddiw', Tudur Dylan Jones, allan o 'Rhywun yn Rhywle' (Y Lolfa/Gwasg Gomer). Cainc: 'Rhos y Nant' (1122), Menai Williams, allan o 'Ceinciau'r Dyffryn a Mwy' (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru). Detholiad penodol – Pennill 1, 3, 4 a 7 yn unig. Gwobr: £18 i'w rhannu.
11. Parti Bl. 6 ac iau (Adrannau). Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Gweld y Blodau', Ann Peters Jones (Curiad, 9078); neu i Ysgolion Cynradd hyd at 50 o blant: Parti Unsain. Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Diwrnod Newydd', Ann Peters Jones (Curiad, 9080). Gwobr: £20.
12. Unawd Merched Bl. 7, 8 a 9: 'Y Rhosyn', Einion Dafydd. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod. Cywair: D fwyaf (C♯F♯). Cywair: B♭ fwyaf (A#D'). Caniateir dewis nodau yn y barrau olaf. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £13; 2, £11; 3, £9.
13. Unawd Bechgyn Bl. 7, 8 a 9: 'Y Brain', Einion Dafydd. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod. Cywair: C leiaf (C#D'). Cywair: A leiaf (A,#B). Caniateir dewis nodau ym mar 51. Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri. Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.

14. Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Mae gen i Freuddwyd', Gwyn Thomas, allan o 'Sbectol Inc' (Y Lolfa). Cainc: 'Ffridd Goch' (1122), Gwennant Pyrs, allan o 'Cerddi a Cheinciau'r Cwm'. Hepgor y gwpled olaf. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am Guto ac Enid Jones, Egryn, Parciau, Mynytho) a £13; 2, £11; 3, £9.
15. Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 5 munud. Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.
16. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Ffarwel i Ddociau Lerpwl'. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod. I'w chanu'n ddygyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £13; 2, £11; 3, £9.
17. Perfformiad Unigol o Gân Sioe Gerdd Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad. Dim mwy na 3 munud. Y perfformiad yw'r elfen bwysig, sef cyfleu'r stori a'r cymeriad, nid cywirdeb i'r copi bob tro. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cystadlu. Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.
18. Deuawd Bl. 7, 8 a 9: 'Cwsg Lili Cwsg', W. Matthews Williams, allan o 'Cwmni Cyhoeddi Gwynn'. Gwobr: £22.
19. Deuawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Pan Dorro'r Wawr', Glyndwr Richards, allan o ' 'Caneuon Ffydd' (106). Pwyllgor y Llyfr Emynau Cydenwadol. Cainc: 'Cynfal' (122), Mona Meirion, allan o 'Bro Mebyd' (Gwasg Gwynedd). Gwobr: £22.

LLEFARU

1. Dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
2. Dan 6 oed (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): 'Methu Aros', Owenna Hughes (tud. .....). Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3. £3.
3. Unigol Bl. 2 ac iau: 'Car Bach Hud', Tudur Dylan Jones, allan o 'Rhywun yn Rhywle' (Y Lolfa/Gomer). Gwobr: 1, Medal a £5.50; 2, £4.50; 3, £4.
4. Unigol Bl. 3 a 4: 'Cymryd rhan sy'n bwysig', Meirion MacIntyre Huws. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £5; 3, £4.
5. Unigol Bl. 5 a 6: 'Ben i Lawr', Anni Llŷn, allan o 'Dim Ond Traed Brain' (Y Lolfa/Gomer). Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
6. Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau (6-12 mewn nifer): 'Heddiw', Tudur Dylan Jones, allan o 'Rhywun yn Rhywle' (Y Lolfa/Gomer), neu i Adrannau (6-12 mewn nifer): 'Ar y Wê', Tudur Dylan Jones, allan o 'Rhywun yn Rhywle' (Y Lolfa/Gomer). Ni chaniateir addasu'r dafodiaith yma. Gwobr: £20.
7. Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Methu Dianc', Myrddin ap Dafydd. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £13; 2, £11; 3, £9.
8. Monolog Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad. Monolog o ddrama neu sgript wreiddiol. Dim mwy na 3 munud. Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.

LLEFARU PNAWN SADWRN (parhau)

8.9 I bob oed. Cystadleuaeth Sgen ti dalent? (Gweler y manylion yn rhestr cystadlaethau nos Sadwrn). Gwobr - £50, i w rannu yn ôl dymuniad y Beirniaid .

CYFARFOD NOS SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r gystadleuaeth Unawd Bl. 10 a dan 19 oed.

Cystadleuwyr i drafod eu dewisiadau gyda'r Cyfeilydd
ychydig ddyddiau cyn yr Eisteddfod.
Ffôn symudol 07791 837634 catrinalwenj@gmail.com

CERDDORIAETH

1. Unawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £15; 2, £13; 3. £9.
2. Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Tlws (rhoddedig er cof am y diweddar John R. Thomas, Meifod) a £15.
3. Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 7 munud. Gwobr: 1, Cwpan Coffa Eiluned Douglas-Williams (i'w gadw am flwyddyn) a £15; 2, £13; 3, £9.
4. Dan 19 oed: Canu unrhyw offeryn heblaw'r piano: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan a £15; 2, £13; 3, £9.
5. Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.
6. Deuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.
7. Unawd dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w gadw am flwyddyn (rhoddedig er cof am Humphrey Jones, Hafod-y-Grug) ac £17; 2, £15; 3, £13.
8. Unawd allan o Sioe Gerdd dan 25 oed: Hunan-ddewisiad. Dim hwy na 5 munud. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am John Elwyn Parry, Coed-y-Fron) ac £17; 2, £13; 3, £11.
9. Unawd Agored: Canu Unrhyw Emyn. Gwobr: 1, Cwpan (i'w gadw am flwyddyn) er cof am y ddiweddar Katie Williams, Maesteg, Llanbedrog, ac £21; 2, £16; 3, £11.
10. Cân Werin Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (er cof am y diweddar Einion P. Jones, a fu'n Drysorydd yr Eisteddfod) ac £17; 2, £13, 3, £11.
11. Unawd Cerdd Dant Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w ddal am flwyddyn (er cof am Carys Jones, Awel-y-Mynydd) ac £17; 2, £13; 3, £11.
12. Unawd Gymraeg Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan, i'w ddal am flwyddyn (rhoddedig er cof am y ddiweddar Katie Wyn Jones gan y teulu) ac £21; 2, £17; 3, £13.

13. Her Unawd: Unrhyw unawd o gyfanwaith (Opera/Oratorio). Gweler Amod 5. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig gan deulu 18 Bryn Adda, Bangor, er cof am y ddiweddar Catherine Rhianwen Jones) ac £21; 2, £17; 3, £13.
14. Deuawd Agored: Unrhyw. Gwobr: £26.
15. Parti Unsain neu Ddeulais: Unrhyw. Gwobr: £35.
16. Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2025-2026, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer. Unrhyw gyfuniad o leisiau i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunan-ddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr/gyfansoddwraig o Gymru. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng 1af Mai 2025 a 1af Mai 2026 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol y Garrreg Las 2026. Gwobr: 1, Cwpan a £70; 2, £50. (Y Cwpan i'w ennill dair gwaith yn olynol neu bedair gwaith i gyd.)

LLEFARU

1. Unigol Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £15; 2, £13; 3, £11.
2. Unigol dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) ac £17; 2, £15; 3, £13.
3. Prif Gystadleuaeth Llefaru: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan a £21; 2, £17; 3, £15.
4. Cystadleuaeth Perfformio Cymdeithas Eisteddfodau Cymru i gystadleuwyr 16 ac o dan 25 oed. Cyfle i unigolion bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol cwmni Mewn Cymeriad. Sgriptiau ar gael drwy www.steddfota.cymru Gwobr: 1, £20; 2, £15; 3, £10. Uchafswm hyd y perfformiad fydd 5 munud.
5. Grŵp Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Tarian i'w chadw am flwyddyn (rhoddedig) a £70; 2, £50.

I bob oed: Cystadleuaeth ''Sgen ti dalent?'. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa. (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio offer.) Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall, e.e. Cân o Sioe Gerdd. Gwobr: £50 – i'w rannu yn ôl dymuniad y Beirniaid.

AMODAU

1. Bydd gan y Beirniaid hawl i atal, rhannu neu gwtogi gwobrau.
2. Rhaid i bawb a fydd yn cystadlu ar destunau yr Urdd fod yn yr oedran priodol ar y dydd olaf o Awst 2026, a'r holl gystadleuwyr eraill i fod yn yr oedran priodol ddydd yr Eisteddfod. Ni chaniateir cystadlu ond mewn dosbarth sy'n cyfateb i oedran y cystadleuydd, ac ni ddylid defnyddio'r un darn mewn dwy gystadleuaeth wahanol.
3. Ceidw y Pwyllgor hawl i fynnu prawf o ddilysrwydd unrhyw gystadleuydd.
4. **Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ar yr eitemau agored.**
5. Ni chaniateir cystadlu ond yn Gymraeg.
6. Disgwylir i'r ymgeiswyr anfon eu henwau i'r Ysgrifennydd erbyn 9fed Ebrill 2026.
7. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus, ond un ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Bydd barn y Pwyllgor yn derfynol.
8. Y Cyfansoddiadau a'r Gwaith Llaw i fod yn llaw'r Ysgrifennydd (ac nid i'w hanfon i'r Beirniaid) erbyn 21ain Mawrth 2026. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith gan amgáu enw a chyfeiriad ar wahân.
9. Gellir cael copi o'r beirniadaethau llenyddol cyn 30ain Ebrill 2026, yna fe'u dychwelir ond gwneud cais amdanynt gan anfon amlen addas stampiedig.
10. Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi detholiad o'r cynhyrchion.
11. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.

Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at dreuliau yr Eisteddfod. Diolch i Berwyn a Brenda Williams, Gwelfryn am eu rhodd o Gadair yr Eisteddfod; Mrs Ann Jones a theulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones.

Argraffwyd gan Wasg Carreg Gwalch